# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Medi 2020

Amser: 09.30 - 12.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6466

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Lesley Griffiths AS<br>Christine Wheeler, Llywodraeth Cymru<br>Catriona Hawthorne, Llywodraeth Cymru<br>Rhiannon Phillips, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Craig Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020: Sesiwn dystiolaeth

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)600 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth a chytunwyd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i godi pwyntiau pellach ynghylch gwneud deddfwriaeth gysylltiedig â Covid-19 a'i hygyrchedd.

### 3.2 SL(5)603 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunwyd i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 3.3 SL(5)604 - Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôlraddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunwyd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(5)599 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunwyd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(5)602 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunwyd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.6 SL(5)601 – Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth a chytunwyd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(5)595 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth a llythyr y Prif Weinidog mewn perthynas â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020.

### 4.2 SL(5)596 – Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a’r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth i'w adroddiad ar Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a’r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020. Yn ogystal,

nododd y Pwyllgor lythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd mewn perthynas â'r Rheoliadau, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

## 5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 5.1 WS-30C(5)166 - Rheoliadau Gwahardd Cyfyngiadau Meintiol (Ymadael â’r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

## 6 Papurau i’w nodi

### 6.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau’r UE)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, a nodwyd iddo gael ei anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol.

### 6.2 Llythyr gan y Prif Weinidog: Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog. Nododd y Pwyllgor y byddai'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol yn dod i sesiwn dystiolaeth ar ymchwiliad y Pwyllgor i faes Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru ar 12 Hydref 2020.

### 6.3 Llythyr gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru: Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

### 6.4 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'r ymateb i'w adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd.

### 6.5 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Cytundeb Rhyng-sefydliadol - Cyfarfodydd Gweinidogol Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 6.6 Llythyr gan y Prif Weinidog: Llawlyfr Deddfwriaeth ar Is-ddeddfwriaeth

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

### 6.7 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Cymhwysedd ar gyfer treth tir gwag yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

### 6.8 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

### 6.9 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Gorchymyn adran 109

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y sesiwn gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a chytunwyd i drafod adroddiadau drafft ar y Gorchymyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd: Trafod y materion allweddol

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol mewn perthynas â’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd, a chytunwyd i drafod adroddiad drafft yn ei gyfarfod nesaf.

## 10 Y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru): Trafod y materion allweddol a’r ohebiaeth â’r Gweinidog

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol mewn perthynas â'r Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru), yn ychwanegol at yr ohebiaeth a gafwyd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Cytunodd y Pwyllgor i drafod ei adroddiad drafft yn y cyfarfod nesaf.

## 11 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Newid yng Nghyfansoddiad Cymru, a chytunwyd i'w drafod eto yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 21 Medi mewn perthynas â chynigion Llywodraeth y DU ar gyfer y farchnad fewnol.